

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 89/2025

Dyddiad cyhoeddi: 25/09/2025

Adolygiad o arferion gorau undebau credyd ar sail canfyddiadau o wledydd sydd ag undebau credyd sefydledig

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-255-7

Adolygiad o arferion gorau undebau credyd ar sail canfyddiadau o wledydd sydd ag undebau credyd sefydledig

Awdur: Finn Prendergast

Adroddiad Ymchwil Llawn: Prendergast F (2025). Adolygiad o arferion gorau undebau credyd ar sail canfyddiadau o wledydd sydd ag undebau credyd sefydledig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 89/2025.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arferion-gorau-undebau-credyd-adolygiad-llenyddiaeth-cyhoeddiad>

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Finn Prendergast

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr Termau	3
Crynodeb	4
1. Cyflwyniad	5
2. Methodoleg	6
2.1. Chwiliad llenyddiaeth	6
2.2. Cwestiynau ymchwil	6
3. Canfyddiadau	7
3.1. Sut beth yw arfer gorau?	7
3.2. Thema 1: gwerthoedd undebau credyd	8
3.2.1. Model cymdeithasol	8
3.2.2. Model newydd	8
3.2.3. Model cymdeithasol o'i gymharu â model newydd	9
3.3. Thema 2: bondiau cyffredin	10
3.4. Thema 3: gwelededd undebau credyd	11
3.4.1. Delwedd undebau credyd	11
3.4.2. Gwella marchnata	12
3.4.3. Allgymorth cymunedol	13
3.4.4. Arweinyddiaeth	14
3.5. Thema 4: amgylchedd deddfwriaethol	14
3.6. Thema 5: cyllid allanol	15
3.6.1. Cynaliadwyedd	15
3.6.2. Cyllid wedi'i dargedu	15
3.7. Thema 6: rheolaeth a phroffesiynoli	17
3.7.1. Gwella proffesiynoldeb	17
3.7.2. Dadansoddiad PEARLS	18
3.7.3. Terfynau proffesiynoli	18
3.8. Thema 7: ehangu gwasanaethau a chydweithio	19
3.8.1. Gwella portffolios undebau credyd	19
3.8.2. Cydweithio	19
4. Casgliad	20
4.1. Gwerthoedd undebau credyd	21
4.2. Bondiau cyffredin	21

4.3.	Gwelededd undebau credyd.....	21
4.4.	Amgylchedd deddfwriaethol.....	22
4.5.	Cyllid allanol	22
4.6.	Rheolaeth a phroffesiynoldeb	22
4.7.	Ehangu gwasanaethau a chydweithio	22
5.	Cyfeiriadau	23

Rhestr Termau

Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig (ABCUL)

Mae ABCUL yn rhwydwaith o undebau credyd Prydeinig sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu undebau credyd yn y DU.

Bond cyffredin

Mae'r bond cyffredin yn diffinio pwy all ymuno ag undeb credyd, fel trigolion ardal benodol sy'n gymwys i fod yn aelod.

Undebau Credyd

Mae undebau credyd yn gydweithfeydd ariannol nid-er-elw a weithdredir gan gymysgedd o staff gwirfoddol a phroffesiynol.

Undebau Credyd Cymru

Mae Undebau Credyd Cymru yn rhwydwaith o undebau credyd yng Nghymru sy'n eirioli dros y defnydd o undebau credyd ledled Cymru.

PEARLS

Mae PEARLS yn fframwaith datblygu a ddatblygwyd gan WOCCU. Ei ystyr yw diogelu, strwythur ariannol effeithiol, ansawdd asedau, cyfraddau enillion a chostau, hylifedd, arwyddion twf.

Cyngor Undebau Credyd y Byd (WOCCU)

Mae WOCCU yn gymdeithas fasnach fyd-eang a llwyfan datblygu ar gyfer undebau credyd. Maent yn eirioli dros y model undebau credyd ledled y byd ac yn cynorthwyo sectorau undebau credyd presennol i dyfu'n gynaliadwy.

Crynodeb

Cyflwyniad: Mae undebau credyd yn gydweithfeydd ariannol nid-er-elw a weithdredir gan gymysgedd o staff gwirfoddol a phroffesiynol. Mewn gwledydd fel UDA, Gweriniaeth Iwerddon, a Chanada, mae undebau credyd yn treiddio'n uchel i'r farchnad ac yn cystadlu yn erbyn banciau o ran eu defnydd fel gwasanaethau ariannol. Mae gan Gymru, a gweddill y DU, dreiddiad cymharol isel i'r farchnad. Mae undebau credyd wedi cael eu cydnabod am eu gwerth cymdeithasol yn eu harferion benthyca moesegol ac am gynnig gwasanaethau ariannol i amrywiaeth ehangach o bobl na banciau. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod â diddordeb mewn sut y gellir cynyddu treiddiad undebau credyd i'r farchnad yng Nghymru. Nod yr adolygiad llenyddiaeth hwn oedd ateb cwestiynau ymchwil ar yr hyn sy'n gwneud undebau credyd mewn gwledydd defnydd uchel yn llwyddiannus, yr hyn sy'n hyrwyddo twf a'r hyn sy'n ei atal.

Dulliau: Cysylltwyd â gwasanaeth llyfrgell Llywodraeth Cymru i gasglu ffynonellau cychwynnol o lenyddiaeth. Chwiliodd y gwasanaeth llyfrgell sawl cronfa ddata a dychwelyd 40 o ffynonellau o lenyddiaeth o 2000 ymlaen. Cafodd rhai ffynonellau eu heithrio oherwydd perthnasedd, a chafodd eraill eu cynnwys ar ôl chwilio am lenyddiaeth ychwanegol ar Google Scholar ac edrych ar restrau cyfeirio llenyddiaeth. Cafodd y llenyddiaeth ei dadansoddi a'i syntheseiddio i saith thema.

Canfyddiadau: Mae sawl ffactor sy'n cyfrannu at lwyddiant undeb credyd. Yn gyntaf, mae undebau credyd sy'n lleoli eu hunain fel busnesau yn tueddu i weld twf gwell na'r rhai sy'n canolbwyntio'n bennaf ar nodau cymunedol a chymdeithasol. Yn ail, mae undebau credyd yn cael budd o gronfeydd mwy o ddefnyddwyr cymwys drwy fondiau cyffredin estynedig. Yn drydydd, mae undebau credyd mewn gwledydd llwyddiannus yn adnabyddus, ond yn y DU gallent gael budd o frandio gwell, yn enwedig i gynulleidfaoedd newydd. Yn bedwerydd, mae gwledydd sydd â defnydd uwch yn cael budd o gymorth deddfwriaethol cryf sydd wedi'i deilwra i fodolau gweithredu undebau credyd. Yn bumed, gall cyllid allanol fod yn fuddiol pan fydd yn bwrpasol ac wedi'i roi gydag amodau, ond gall greu'r risg o arwain at ddibyniaeth yn hytrach nag arferion busnes hunangynhaliol. Yn chweched, mae'r undebau credyd mwyaf llwyddiannus yn dibynnu ar nifer uwch o staff proffesiynol yn hytrach na gwirfoddolwyr. Mae hyn yn ymestyn i reolaeth oherwydd bod undebau credyd sydd â strategaethau sy'n canolbwyntio mwy ar fusnes yn tueddu i weld mwy o ddefnydd. Yn seithfed, mae undebau credyd defnydd uchel yn cael budd o amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chydweithio. Efallai y bydd angen rhagor o waith i wella'r gwasanaethau a gynigir gan undebau credyd er mwyn denu enillwyr newydd, incwm uwch. Gall hyn gael ei gynorthwyo gan fwy o gydweithio rhwng undebau credyd a chyda banciau.

Casgliad: Mae undebau credyd mewn gwledydd defnydd uchel yn llwyddo drwy weithredu fel busnesau hunangynhaliol gyda brandio cryf, rheolaeth broffesiynol, a gwasanaethau amrywiol. Er mwyn cynyddu treiddiad i'r farchnad yng Nghymru, gallai undebau credyd ganolbwyntio ar y meysydd hyn tra hefyd yn cael budd o ddeddfwriaeth gefnogol a chydweithio strategol.

1. Cyflwyniad

Mae undeb credyd yn gydweithfa ariannol nid-er-elw sy'n eiddo i'w aelodau ac yn cael ei reoli ganddynt er budd ei gilydd (Ryder, 2005). Yn y DU, mae undebau credyd yn aml yn cynnwys cymysgedd o staff gwirfoddol a chyflogedig, ynghyd â thîm rheoli penodedig a bwrdd cyfarwyddwyr. Mae aelodaeth o undeb credyd yn seiliedig ar fond cyffredin, y gellir ei ddiffinio yn ôl lleoliad daearyddol, galwedigaeth, neu gymdeithas sydd ag aelodau presennol.

Er gwaethaf eu manteision, mae undebau credyd yn y DU wedi profi treiddiad is i'r farchnad o gymharu â gwledydd fel Gweriniaeth Iwerddon, UDA, Canada, ac Awstralia. Yn y DU, mae gwahaniaethau nodedig yn y defnydd o undebau credyd. Gogledd Iwerddon sydd â'r treiddiad uchaf i'r farchnad ar 34%, wedi'i dilyn gan yr Alban ar 8.1%, Cymru ar 2.2%, a Lloegr ar 1.7% ([Banc Lloegr, 2025](#)). Mae'r treiddiad isel hwn i'r farchnad wedi ysgogi academyddion a llywodraethau i archwilio strategaethau ar gyfer cynyddu eu defnydd. Mae llawer o'r llenyddiaeth ar undebau credyd yn archwilio gwledydd defnydd uchel, ac mae rhai astudiaethau'n ymchwilio i rwystrau mewnol sy'n atal y DU rhag datblygu sector undeb credyd aeddfed. Mae llenyddiaeth ar undebau credyd hefyd yn amlygu eu rôl fel offerynnau ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, llythrennedd ariannol, a chydlyniant cymunedol. Mae llunwyr polisi wedi cydnabod a chefnogi undebau credyd am y rhesymau hyn.

Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn awgrymu bod datblygiad undebau credyd a threiddiad i'r farchnad yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys cyd-destun daearyddol, tirwedd polisi, a chymorth y llywodraeth, lefelau proffesiynoldeb undebau credyd, a gwelededd. Drwy archwilio'r themâu hyn, mae'n bosibl nodi gwersi ar gyfer cyd-destun polisi Cymru a llwybrau posibl ar gyfer datblygu undebau credyd ymhellach.

Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth y DU hefyd wedi bod â diddordeb mewn grymuso'r sector undebau credyd, gan gyhoeddi galwad am dystiolaeth yn ddiweddar ([Trysorlys EF, 2024](#)). Mae'r cyhoeddiad yn ceisio mewnbwn gan unrhyw bartïon â diddordeb ar sut y gellir diwygio'r bond cyffredin er mwyn gwella cynaliadwyedd a thwf undebau credyd. Daeth yr alwad am dystiolaeth i ben ar 6 Mawrth 2025 ac fe'i cynhaliwyd am 16 wythnos. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn defnyddio'r ymatebion i gyhoeddi crynodeb a disgrifiad o'r camau nesaf ar ddyddiad hwyrach amhenodol, a allai gynnwys ymgynghoriad. Mae'r gwaith hwn yn dangos ymrwymiad parhaus i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwella'r sector, gan gydnabod ei botensial ar gyfer helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag allgáu ariannol a chydlyniant cymunedol.

2. Methodoleg

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn ceisio archwilio arferion gorau undebau credyd, ffactorau sy'n arwain at ddefnydd uchel o undebau credyd, a rhwystrau i dwf undebau credyd, gan ganolbwyntio ar berthnasedd i Gymru.

2.1. Chwiliad llenyddiaeth

Cafodd y llenyddiaeth ei chasglu i ddechrau gan wasanaeth llyfrgell Llywodraeth Cymru. Y cronfeydd data a chwiliwyd oedd Science Direct, Web of Science, Scopus, ProQuest Social Science Premium Collection, ac OECD. O ystyried y swm cymharol gyfyngedig o lenyddiaeth a nodwyd i ddechrau, pennwyd ystod dyddiadau benodol i ganolbwyntio ar lenyddiaeth a gyhoeddwyd rhwng 2000 a 2025. Cafodd y chwiliad ei gyfyngu i wledydd sy'n siarad Saesneg gan mai'r rhain fyddai'r rhai mwyaf perthnasol i Gymru. Yn achos llenyddiaeth o'r DU, mae'n werth cofio bod y mwyafrif o'r llenyddiaeth a nodwyd wedi'i chyhoeddi dros ddegawd yn ôl. Felly, efallai na fydd mor berthnasol i'r sector undebau credyd presennol yng Nghymru. Mae hefyd yn werth ystyried efallai nad yw llenyddiaeth sy'n ymwneud â gwledydd eraill mor berthnasol i gyd-destun Cymreig.

Nodwyd cyfanswm o 40 o gyfeiriadau o'r chwiliad llenyddiaeth. Cafodd nifer o gyfeiriadau eu hepgor gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf o fod o wledydd sy'n siarad Saesneg neu nid oedd y cyhoeddiadau testun llawn ar gael. Ychwanegwyd sawl cyfeiriad ychwanegol drwy chwilio am eiriau allweddol ar Google scholar a defnyddio cyfeiriadau o ffynonellau cychwynnol. Cafodd y llenyddiaeth ei hadolygu a'i dadansoddi, gan arwain at nodi cyfres o themâu cyffredin, a drafodir mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil isod.

2.2. Cwestiynau ymchwil

Cafodd y cwestiynau ymchwil eu darparu i ddechrau gan swyddogion polisi Cymunedau a Threchu Tlodi. Yn dilyn y chwiliad llenyddiaeth, cafodd y cwestiynau eu mireinio i adlewyrchu canfyddiadau interim. Dyma'r tri chwestiwn ymchwil:

- beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar lwyddiant undebau credyd mewn gwledydd eraill?
- beth sy'n arwain at ddefnydd uchel o undebau credyd mewn gwledydd eraill?
- beth sy'n dal undebau credyd yn ôl rhag tyfu mewn gwledydd eraill?

3. Canfyddiadau

3.1. Sut beth yw arfer gorau?

Datblygodd Ferguson a McKillop (1997, yn Iddrisu, 2021) fframwaith teipoleg ar gyfer datblygu undebau credyd sy'n categoreiddio gwledydd yn dibynnu a ydynt yn y camau cychwynnol, pontio, neu aeddfed o ran datblygu undebau credyd. Gwledydd cychwynnol yw'r rhai lle nad yw undebau credyd wedi sefydlu eu hunain eto fel sefydliadau credadwy sy'n canolbwyntio ar ddenu aelodau a dechrau gweithrediadau. Gwledydd pontio, sy'n cynnwys y DU, yw'r rhai sy'n profi twf a phroffesiynoli undebau credyd, ac sy'n tueddu i ddibynnu ar gyllid allanol a chynigion benthyciadau i gynnal eu hunain. Mae undebau credyd aeddfed, sy'n cynnwys UDA, Gweriniaeth Iwerddon, Canada, ac Awstralia, yn sefydledig gyda threiddiad sylweddol i'r farchnad. Maent yn cynnig ystod amrywiol a soffistigedig o gynhyrchion ac yn cystadlu â banciau am gwsmeriaid. Mae gwledydd sydd â sectorau undebau credyd aeddfed yn cynnig cyfres o feini prawf llwyddiant ar gyfer gwledydd sy'n ceisio cynorthwyo undebau credyd i wella eu treiddiad i'r farchnad ac apelio at y boblogaeth gyffredinol. Mae egwyddorion y fframwaith hwn hefyd wedi'u nodi'n flaenorol fel rhai sy'n ddefnyddiol ar gyfer datblygu sector undebau credyd Cymru (Scott Cato ac eraill, 2009).

Ar ôl dadansoddi'r llenyddiaeth, nodwyd sawl thema. Mae'r themâu hyn yn ymwneud â'r cwestiynau ymchwil. Mae pob canfyddiad yn seiliedig ar fewnwelediadau o lenyddiaeth ar sut y mae twf a llwyddiant undebau credyd wedi'u cyflawni mewn gwledydd eraill, neu y gellid eu cyflawni, yn ogystal â ffactorau a nodwyd fel rhai sy'n dal twf yn ôl.

- Thema 1: gwerthoedd undebau credyd
- Thema 2: bondiau cyffredin
- Thema 3: gwelededd undebau credyd
- Thema 4: amgylchedd deddfwriaethol
- Thema 5: cyllid allanol
- Thema 6: rheolaeth a phroffesiynoldeb
- Thema 7: ehangu gwasanaethau a chydweithio

3.2. Thema 1: gwerthoedd undebau credyd

Drwy gydol y llenyddiaeth, ceir trafodaeth aml ynghylch pa werthoedd y dylai undeb credyd eu mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys a ddylai undeb credyd gadw at y model cymdeithasol neu'r model datblygu newydd. Mae'r adran hon yn trafod sut y gall y modelau gwerthoedd gwahanol hyn ddylanwadu ar dwf undebau credyd, neu fod yn rhwystr iddynt.

3.2.1. Model cymdeithasol

Yn draddodiadol, mae undebau credyd y DU wedi bod yn sefydliadau model cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'r undebau credyd hyn wedi canolbwyntio ar y gymuned, wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pobl dan anfantais yn eu cymuned uniongyrchol a allai gael eu heithrio o fancio traddodiadol. Mae'r undebau credyd hyn yn tueddu i gael eu rhedeg gan weithlu gwirfoddol yn bennaf ac maent yn dibynnu ar fond cyffredin tynnach rhwng aelodau i ddiogelu yn erbyn drwgweithredu benthyciadau ac annog cynilion cydfuddiannol. Maent hefyd yn ceisio gwella llythrennedd ariannol aelodau, gan annog cyfrifoldeb ariannol a chynilion (Scott Cato, 2009).

Mae'r model cymdeithasol yn rhoi'r rhai mwyaf difreintiedig ar flaen eu gweithrediad. Gellir eu disgrifio fel rhai sy'n datblygu o reidrwydd pan fydd pobl wedi dadrithio â banciau, yn enwedig yn ystod cyfnodau o argyfwng (Ryder, 2005; Power ac O'Connor, 2012). Er enghraifft, gwelodd y DU dwf gwirioneddol yn y sector undebau credyd yn dilyn cwmpwr ariannol 2008 lle dyblodd aelodaeth undebau credyd i dros 1.5 miliwn (Tischer ac eraill, 2015). Mae'r model cymdeithasol wedi cyfrannu at undebau credyd yn y DU yn cael eu gweld fel 'banc y dyn tlawd' ac felly maent yn tueddu i gael eu defnyddio gan bobl sydd o dan anfantais ariannol yn unig, neu bobl sy'n cael eu denu at genhadaeth gymdeithasol undebau credyd (Myers ac eraill, 2012). Efallai fod hyn wedi golygu bod undebau credyd yn llai dymunol ar gyfer enillwyr incwm canolig ac uwch nad ydynt yn teimlo bod undebau credyd yn darparu ar gyfer eu hanghenion, nac yn gallu cynnig y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau ariannol traddodiadol (Jones, 2012).

3.2.2. Model newydd

Mae'r model newydd ar gyfer undebau credyd yn cael ei hyrwyddo gan Gyngor Undebau Credyd y Byd (WOCCU) a Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig (ABCUL) ac mae'n gysylltiedig â sectorau undebau credyd mwy llwyddiannus. Mae undebau credyd model newydd yn cael eu nodweddu gan fod yn broffesiynol, darparu amrywiaeth o wasanaethau i gymuned fawr, cynnal arferion busnes cynaliadwy, ac ymarfer ysbryd entrepreneuriaidd. Mae'r undebau credyd hyn yn cael eu hysgogi gan fusnes effeithiol, ac mae'r manteision cymdeithasol yn cael eu gweld fel sgil-gynnyrch anochel hyn (McGrath, 2019). Mae Richardson (2000, yn Edmonds, 2015) yn nodi saith athrawiaeth sy'n gysylltiedig â methodoleg y model newydd. Yn gyntaf, dylai undebau credyd apelio at bob rhan o'r boblogaeth, nid dim ond y rhai sydd o dan anfantais ariannol. Yn ail, dylai undebau credyd gynnig cyfraddau llog deniadol i annog cynilion. Yn drydydd, mae angen i undebau credyd amrywio eu cynnig cynnyrch y tu hwnt i fenthyciadau sengl a chynilion. Yn bedwerydd ac yn bumed, mae angen i undebau credyd sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithlon a chyda disgyblaeth ariannol. Yn chweched, mae angen i undebau credyd fod yn

gynaliadwy a llywodraethu eu hunain yn annibynnol, ac yn seithfed, mae angen iddynt integreiddio pobl sydd o dan anfantais ariannol yn yr economi brif ffrwd drwy gyllid hygrych (Edmonds, 2015).

Mae eiriolwyr datblygiad undebau credyd model newydd yn cyfeirio at lwyddiannau undebau credyd mewn gwledydd eraill fel Iwerddon ac UDA, lle mae gan undebau credyd dreiddiad llawer uwch i'r farchnad ac yn cael eu hystyried fel bygythiad gwirioneddol i fanciau traddodiadol. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at lobïo gan fanciau yn erbyn y buddiannau deddfwriaethol y mae undebau credyd yn eu derbyn (Jones, 2001; Edmonds, 2015). Maent hefyd yn cadw at egwyddorion Richardson (2000) fel sefydliadau cynaliadwy nad ydynt yn dibynnu ar gyllid y llywodraeth ac maent yn cyflogi gweithwyr proffesiynol i reoli'r undeb credyd yn amser llawn. Mae undebau credyd model newydd hefyd wedi'u nodweddu gan eu cydweithio a'u partneriaeth â'i gilydd a sefydliadau eraill.

Er y gall llawer o lwyddiant undebau credyd yn y gwledydd hyn fod oherwydd yr amodau cychwynnol a arweiniodd at fanteisio ar undebau credyd yn y 19^{eg} ganrif (a drafodir ymhellach yn yr adroddiad hwn), gellir priodoli eu twf parhaus a'u cyrhaeddiad helaeth i ethos sylfaenol yr undebau credyd hyn fel busnesau yn gyntaf a sefydliadau cymdeithasol yn ail.

3.2.3. Model cymdeithasol o'i gymharu â model newydd

Mae'r llenyddiaeth yn nodi bod datblygiad ac effeithiolrwydd undebau credyd mewn gwlad yn dibynnu i raddau helaeth ar ethos eu model busnes. Mae'r fframwaith datblygu undebau credyd a ddatblygwyd gan Ferguson a McKillop (1997, a ddyfynnwyd yn Iddrisu 2021) yn awgrymu mai sectorau undebau credyd aeddfed – y mwyaf cynaliadwy ac sydd â'r nifer fwyaf o aelodau – yw'r rhai sy'n ymarfer egwyddorion y model newydd. Fodd bynnag, mae rhai wedi codi pryderon bod mynd ar drywydd cynaliadwyedd a thwff yn symud prif genhadaeth undebau credyd fel dulliau o fynd i'r afael ag allgáu ariannol, sy'n cael ei ystyried fel prif gryfder undebau credyd yn y lle cyntaf (Edmonds, 2015). Yn y cyd-destun hwn, maent yn cael eu hystyried fel sefydliadau nad oes angen iddynt gystadlu â banciau ond eu hategu drwy fod yn hygrych i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau banc. Yn hanesyddol, bu rhywfaint o wrthwynebiad gan rai academyddion a chymdeithasau undebau credyd yn erbyn uno â'r brif ffrwd gan eu bod yn credu mai'r brif ffrwd yw'r hyn sy'n arwain at allgáu ariannol yn y lle cyntaf (Edmonds, 2015; Jones, 2004). Fodd bynnag, mae WOCCU yn ystyried y farn hon fel un sy'n atal twf undebau credyd (Edmonds, 2015).

Mae Jones (1999, yn Ward a McKillop, 2005) yn dadlau bod llawer o undebau credyd, sy'n blaenoriaethu nodau moesegol, yn annhebygol o barhau i fod yn fusnesau cymunedol hyfyw yn yr hirdymor, ac y gall eu heffaith ar y gymuned fod yn fach iawn. Er enghraifft, efallai na fydd undeb credyd sydd â dim ond 100 o aelodau yn cyfrannu'n sylweddol at amcanion cymdeithasol y 19,900 o bobl sy'n weddill o fewn ei fond cyffredin 20,000 o aelodau. At hynny, mae Edmonds (2015) yn dadlau, er gwaethaf gwrthwynebiad academiaidd i fethodoleg y model newydd, ei fod yn ganlyniad uniongyrchol ymdrechion i leddfu tlodi; er mwyn mynd i'r afael ag allgáu ariannol, mae angen i undeb credyd feddu ar y gallu sefydliadol a'r cynaliadwyedd i wneud hynny.

3.3. Thema 2: bondiau cyffredin

Mae aelodaeth o undeb credyd yn dibynnu ar fond cyffredin sy'n cysylltu aelodau drwy breswylfa, galwedigaeth, neu gymdeithas ag aelod (Ward a Forker, 2017). Mae rhywfaint o ddadlau ynghylch a yw'n fwy buddiol cael bond cyffredin tynnach, drwy ofynion llymach ar gyfer aelodaeth, neu fond cyffredin mwy llac, sy'n cynnwys llacio gofynion aelodaeth. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ddadl ynghylch y model cymdeithasol o'i gymharu â'r model newydd. Mae deall y dulliau o ran bondiau cyffredin undebau credyd yn bwysig i ddeall sut y gellir cyflawni mwy o dwf.

Mae eiriolwyr y model newydd yn awgrymu llacio bondiau cyffredin er mwyn cynyddu'r gronfa o unigolion sy'n gallu ymuno ag undeb credyd ([WOCCU, 2015](#)). Gan edrych ar y model datblygu undebau credyd (Ferguson a McKillop, 1997 yn Iddrisu, 2021), ystyrir bod undebau credyd cychwynnol yn cael eu dal yn ôl gan sylfeini defnyddwyr bach ac maent yn dibynnu ar fond cyffredin tynnach a allai rwystro twf. At hynny, wrth i undebau credyd datblygu yn rhyngwladol, mae undebau credyd â bondiau cyffredin mwy llac fel arfer wedi gweld y cyfraddau twf uchaf (Iddrisu, 2021), ac mae rhai awdurdodaethau wedi gweld y bond cyffredin yn cael ei ddileu'n gyfan gwbl ([WOCCU, 2015](#)).

Fodd bynnag, canfu Brown ac eraill (1999, yn Ward a McKillop, 2005) yn eu hastudiaeth o undebau credyd Awstralia dros dair blynedd fod bondiau cyffredin tynnach yn gwella effeithiolrwydd undebau credyd ac yn lleihau costau gweithredu oherwydd llai o anghymesuredd gwybodaeth. Canfuwyd bod buddiannau yn fwy nodedig mewn bondiau cyffredin cymdeithasol, ac yna galwedigaethol ac yna preswyl. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu cadarnhau gan Ferguson a McKillop (1997, yn Ward a McKillop, 2005) a nododd fod gan fondiau cyffredin galwedigaethol effeithlonrwydd uwch oherwydd bod gan aelodau ffrwd incwm sefydlog a'r potensial i ad-daliadau benthyciadau gael eu gwneud yn uniongyrchol drwy ddidynnu o'r gyflogres.

Yn yr un modd, nododd Jones (2001) ym Mhrydain, ar adeg ysgrifennu, nad oedd llawer o undebau credyd mwy llac cymunedol a seiliedig ar breswylfa yn fwy na 200 o aelodau ond bod undebau credyd sy'n seiliedig ar alwedigaeth yn gallu cyflawni'r cyfraddau twf aelodaeth uchaf. Roedd yr olaf yn 15% o'r holl undebau credyd ym Mhrydain ond yn cyfrif am 50% o'r holl aelodau undebau credyd ac yn dal y mwyafrif o'r asedau. Mae bondiau cyffredin hefyd yn adeiladu ymddiriedaeth ymhlith aelodau, gan ysgogi aelodau i dalu eu benthyciadau yn ôl, a thrwy hynny yn lleihau'r tebygolrwydd o ddyledion drwg (Brown ac eraill, 1999). Drwy ddibynnu ar fondiau cymdeithasol presennol, mae undebau credyd wedi gallu gwahaniaethu eu hunain oddi wrth fanciau a denu'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at eu gwasanaethau (Jones, 2001).

Fodd bynnag, mewn gwledydd lle mae undebau credyd wedi cyflawni treiddiad uchel i'r farchnad, maent wedi dibynnu llai ar fondiau cymdeithasol bach a chanolbwyntio mwy ar wasanaethau estynedig ar gyfer cyfran fwy o'r boblogaeth (Iddrisu, 2021; [Adroddiad Comisiwn Undebau Credyd, 2018](#)). Dyma'r farn a fu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyda pholisïau olynol yn llacio'r gofynion ar gyfer bond cyffredin (Bryer, 2014). Fodd bynnag, er gwaethaf cwmpas uchel poblogaeth Cymru (a phoblogaeth ehangach y DU) gan fond cyffredin, mae gan undebau credyd dreiddiad isel i'r farchnad o hyd (Scott Cato ac

eraill, 2009). Gall hyn fod yn rhannol oherwydd mynediad cymharol hawdd at sefydliadau ariannol eraill yn y DU, o'i gymharu ag economïau mwy trosiannol gyda chyllid anhygyrch (Scott Cato ac eraill, 2009; McKillop a Wilson, 2008).

Mae Ward a McKillop (2005) yn awgrymu ynghyd â llacio bond cyffredin, dylai undebau credyd ganolbwyntio ar wasanaethu ardaloedd mwy amrywiol y tu hwnt i gymunedau incwm isel. Maent yn dadlau bod hyn wedi bod yn ffactor y tu ôl i dwf araf undebau credyd ledled y DU. Byddai hyn hefyd yn galluogi'r dull undeb credyd o 'ailgylchu' asedau o'r mwy cefnog i'r rhai sydd wedi'u hallgáu yn ariannol, gan leihau dyledion drwg drwy sylfaen aelodaeth risg is, a gwella enw da (McKillop a Wilson, 2003; Reifner, 1997). Yn y gorffennol, mae ymdrechion i gyflawni mwy o amrywiaeth wedi'u gwneud drwy lacio'r bond cyffredin a chaniatáu i undebau credyd fenthycu oddi wrth ei gilydd i alluogi mwy o ddifidendau i aelodau (Ward a McKillop, 2005). Trafodir gweithio mewn partneriaeth rhwng undebau credyd ymhellach yn yr adroddiad hwn.

3.4. Thema 3: gwelededd undebau credyd

Yn y DU, mae gan undebau credyd statws fel 'cyfrinach orau Prydain' neu 'fanc y dyn tlawd' (Moore, 2022; Jones, 2004). Naill ai nid yw pobl yn gwybod eu bod yn bodoli neu maent o'r farn eu bod yn sefydliadau ariannol ar gyfer enillwyr incwm is yn bennaf. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod sawl rheswm dros y diffyg ymwybyddiaeth o undebau credyd ledled y DU ac mae'n cynnig ffyrdd y gellid mynd i'r afael â hyn. Mae'r thema hon yn ystyried sut y gall gwelededd a chanfyddiad cyhoeddus gyfrannu at dwf neu gyflwyno rhwystr.

3.4.1. Delwedd undebau credyd

Cynhaliodd Atkinson ac eraill (2023) astudiaeth wedi'i hanelu at nodi rhwystrau ar gyfer cyflawni cynhwysiant ariannol yn DU. Roedd eu hastudiaeth yn seiliedig ar ddata sylfaenol o gyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid proffesiynol ac unigolion sydd â phrofiad bywyd o allgáu ariannol. Canfu'r astudiaeth fod diffyg ymwybyddiaeth ledled Lloegr o'r hyn y mae undebau credyd yn ei gynnig i'r rhai sy'n profi allgáu ariannol. Nid oedd nifer o unigolyn sy'n profi allgáu ariannol a gyfwelwyd yn yr astudiaeth wedi clywed am undebau credyd. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid gwneud mwy i hyrwyddo undebau credyd, ac roedd eraill yn dadlau mai dim ond hyn a hyn y gallai hyrwyddo ei gyflawni pan fo gwasanaethau undebau credyd yn fwyfwy anhygyrch. Fel y dywedodd un cyfranogwr "roeddent yn arfer bod yn well o'r blaen; maent bellach fel banciau – wedi'u preifateiddio gormod! Collon nhw eu gwir bwrpas" (Atkinson ac eraill, 2023, t.16). Mae hyn yn cysylltu â'r anawsterau sy'n wynebu undebau credyd, gan geisio gwasanaethu'r rhai sydd wedi'u hallgáu yn ariannol tra hefyd yn mabwysiadu arferion busnes i gynyddu ac ehangu eu treiddiad i'r farchnad. Argymhellodd yr astudiaeth y dylid targedu cyllid i wella'r gwaith o hyrwyddo undebau credyd, mater a drafodir ymhellach yn ddiweddarach yn yr adolygiad hwn.

I'r gwrthwyneb, gall undebau credyd gael eu niweidio gan eu delwedd o gael eu hystyried fel rhywbeth ar gyfer y difreintiedig yn unig ac yn rhy wahanol i fanciau. Cynhaliodd Jones (2004) ddadansoddiad o sawl undeb credyd enghreifftiol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i helpu i ddeall sut y gall undebau credyd dyfu. Un o'i ganfyddiadau oedd bod undebau credyd yn cael eu dal yn ôl gan eu statws fel 'banc y dyn tlawd', ac nad oedd undebau

credyd yn gallu brwydro yn erbyn y ddelwedd hon. Mewn rhai achosion, roedd undebau credyd wedi rhoi'r gorau i'r teitl 'Undeb Credyd' yn gyfan gwbl gan nad oeddent yn credu ei fod yn cael ei ddeall gan y cyhoedd. At hynny, mae Scott Cato ac eraill (2009) yn dadlau y gallai'r term 'Undeb Credyd' fod yn broblem oherwydd gall y geiriau 'Credyd' ac 'Undeb' fod â chysylltiadau negyddol i rai pobl. Gall y cysylltiadau hyn amrywio yn seiliedig ar safbwyntiau gwleidyddol, gan effeithio o bosibl ar sut y mae unigolion yn canfod undebau credyd ac yn ymgysylltu â nhw. Awgrymodd rhanddeiliaid undebau credyd mewn grŵp ffocws y gallai hyn gael ei helpu gan frand mwy unedig ar gyfer undebau credyd Cymru a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael mwy o gydweithio rhwng undebau credyd (Scott Cato ac eraill, 2009).

3.4.2. Gwella marchnata

Y tu hwnt i'w hyrwyddo ar gyfer unigolion sydd wedi'u hallgáu yn ariannol, mae undebau credyd yn yr Unol Daleithiau wedi bod yn edrych tuag at hyrwyddo undebau credyd i gwsmeriaid Cen Z¹ er mwyn cynnal treiddiad uchel i'r farchnad ([McKinsey a Company, 2024](#)). Yn eu herthygl, mae [McKinsey a Company \(2024\)](#) yn awgrymu bod llwyddiant undebau credyd yn yr Unol Daleithiau wedi'i ysgogi gan genhedlaeth y "baby boomers" a ddefnyddiodd undebau credyd wrth iddynt ennill eu hasedau uchaf. Mae cenhedlaeth y "baby boomers"² bellach yn ymddeol ac yn mynd â'u hasedau gyda nhw, ac yn ôl Arolwg Bywyd Ariannol Defnyddwyr McKinsey 2023 ([McKinsey a Company 2024](#)), mae cenedlaethau iau yn llawer llai tebygol o gynilo gydag undebau credyd. Yn hytrach, maent yn defnyddio sefydliadau ariannol sydd, yn eu barn nhw, yn cynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid, cyfraddau llog uwch, a chymorth cymunedol canfyddedig. Mae'n werth nodi bod y canfyddiadau yn yr adroddiad yn seiliedig ar ddata arolwg heb ei gyhoeddi.

Mae [McKinsey a Company \(2024\)](#) yn darparu chwe awgrym ar gyfer gwella gwelededd a dymunoldeb undebau credyd ymhlith Cen Z. Yn gyntaf, drwy ddefnyddio hanes undebau credyd o effaith gymdeithasol a chynhwysiant cymunedol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Cen Z a mileniaid³. Mae hyn yn cysylltu â gwaith gan Myers ac eraill (2012) a awgrymodd ar gyfer rhai defnyddwyr undebau credyd sy'n enillwyr uwch, mae'r penderfyniad i gynilo gydag undeb credyd yn seiliedig ar egwyddorion moesegol yn bennaf. Yn ail, drwy farchnata i gwsmeriaid iau yn ddigidol drwy ddylanwadau ariannol ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol fel TikTok. Yn drydydd, buddsoddi mwy mewn bancio digidol a phrofiad personol sydd wedi dod yn norm i lawer o sefydliadau ariannol traddodiadol. Mae'r tri awgrym olaf yn ymwneud ag uwchraddio technoleg i alluogi strategaethau marchnata sy'n canolbwyntio ar ddigidol, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artifisial mewn gwasanaethau, a diogelu modelau busnes undebau credyd at y dyfodol drwy bartneriaethau. Mae'r pwynt olaf hwn hefyd yn cael ei gefnogi yng nghyd-destun y DU gan Edmonds (2015) a awgrymodd y gallai partneriaethau rhwng banciau ac undebau credyd fod yn sbardun ar gyfer cynyddu treiddiad undebau credyd i'r farchnad, gyda pherthynas gyflenwol yn hytrach na chystadleuol. Er enghraifft, sefydlodd ABCUL bartneriaeth gyda'r Co-operative Bank i ddefnyddio eu prif ffrâm ddigidol i alluogi'r undeb credyd i ddatblygu

¹ Pobl a anwyd rhwng 1997 a 2012.

² Pobl a anwyd rhwng 1946 a 1964.

³ Pobl a anwyd rhwng 1981 a 1996.

gwasanaeth debyd a chredyd yn gyfnewid am dalu rhent (Edmonds, 2015). At hynny, mae Tischer ac eraill (2015) yn awgrymu y dylid rhoi pwysau ar fanciau i rannu data benthyca i alluogi undebau credyd i nodi cymunedau sydd ag angen heb ei ddiwallu gan fanciau a theilwra eu gwasanaeth mewn ymateb i hynny.

Gwnaeth Evans (2015) sawl awgrym yn ei werthusiad o undebau credyd yn Rhydychen ar gyfer sut i wella twf ac ymwybyddiaeth yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol. Roedd y rhain yn cynnwys hysbysebu mewn ffynonellau newyddion lleol, cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, lledaenu llenyddiaeth undebau credyd gan gynnwys posteri, taflenni, a baneri, a strategaeth cyfryngau cymdeithasol. At hynny, gallai undebau credyd ymgysylltu ag ymgyrchoedd presennol sy'n rhannu nodau cyffredin, fel y rhai sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o ddyledion a chymorth gyda dyledion.

3.4.3. Allgymorth cymunedol

Gall cynyddu ymgyrchoedd a chynlluniau codi ymwybyddiaeth ar lefel gymunedol hefyd helpu aelodaeth undebau credyd. Mae Scott Cato ac eraill (2009) a Power ac O'Connor (2012) wedi awgrymu y gellir adeiladu gwelededd drwy bartneriaethau ysgolion, ac maent yn awgrymu bod gan hyn y potensial i gynyddu ymwybyddiaeth o undebau credyd, adeiladu llythrennedd ariannol, a chynyddu nifer y cyfrifon cynilo iau. Mae Scott Cato ac eraill (2009) yn cyfeirio at un o'r mentrau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a hwylusodd gydweithio rhwng ysgol ac undeb credyd yng Nghastell-nedd Port Talbot a ddarparodd adnoddau dysgu ar-lein ar undebau credyd i'r ysgol. Mae dulliau undebau credyd mewn ysgolion yn dal i gael eu defnyddio gan undebau credyd Cymru heddiw, er enghraifft, drwy raglenni addysgol ariannol a chynlluniau cynilo ysgolion ([CUW, 2020](#)). Fodd bynnag, ni chafwyd gwerthusiad o ba mor effeithiol y bu'r dull hwn.

Mae Power ac O'Connor (2012), yn eu hastudiaeth o gyfrifoldeb cymdeithasol ymhlith undebau credyd yn Iwerddon, hefyd yn awgrymu y gall partneriaethau rhwng ysgolion a sefydliadau cymunedol eraill fod yn fuddiol i'r ddwy ochr. Maent yn awgrymu bod buddiannau materol i ysgolion drwy roddion undebau credyd, ac yn gymdeithasol drwy drefnu digwyddiadau ar y cyd fel diwrnodau mabolgampau. Mae'r undeb credyd yn cael budd drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau a gwirfoddolwyr posibl ar gyfer y dyfodol – felly maent yn buddsoddi yn eu cymuned a'u cynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar fuddiannau cymdeithasol undebau credyd yn bennaf wrth gynorthwyo eu cymunedau uniongyrchol yn hytrach na gweithio tuag at gynaliadwyedd a thwf undebau credyd.

Yn ei thraethawd ymchwil ar nodweddion effeithiolrwydd sefydliadol undebau credyd Iwerddon, defnyddiodd McCarthy (2005) holiaduron agored, gweithdai, a thrafodaethau i gasglu mewnwelediadau ansoddol gan gyfarwyddwyr, rheolwyr, a gwirfoddolwyr. Darganfu fod twf wedi'i hwyluso mewn un achos gan wirfoddolwyr a aeth o ddrws i ddrws mewn ystad dai newydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u hundeb credyd. Yn yr un modd, awgrymodd Scott Cato ac eraill (2009) fod tai yn gyfrwng ar gyfer ennill aelodaeth; gall cymdeithasau tai fod yn bartner allweddol i undebau credyd oherwydd eu hymrwymiad i gynorthwyo eu tenantiaid, y gall llawer ohonynt fod wedi'u hallgáu yn ariannol. Nododd McCarthy (2005) hefyd undeb credyd a oedd yn cynnig 'Cyfrifon i Fabanod' lle gall rhieni newydd agor cyfrif

undeb credyd ar gyfer eu babi ac yn cael eu cymell gan y cynnig o gael €20 wedi'i roi i'r cyfrif ar gyfer eu plentyn. Roedd y dulliau hyn ar lefel gymunedol yn cefnogi'r undeb credyd i gyflawni treiddiad bron yn llawn i fond cyffredin undebau credyd Iwerddon (McCarthy, 2005). Mae Atkinson ac eraill (2023) hefyd yn argymhell mwy o weithgarwch cymunedol, gan awgrymu y dylai undebau credyd ganolbwyntio mwy ar nodi unigolion agored i niwed a allai hefyd fod yn benthyca gan fenthycwyr arian didrwydded yn lleol. Gall yr undeb credyd wedyn ddarparu cymorth eu hunain neu gyfeirio unigolion agored i niwed i gymorth.

3.4.4. Arweinyddiaeth

Mae ychydig o ffynonellau hefyd yn awgrymu y gellid cyflawni twf drwy arweinyddiaeth garismatig yn y sector undebau credyd. Mae Ryder (2005), yn ei werthusiad o sectorau undebau credyd, yn trafod sector undebau credyd Iwerddon a sut y gwnaeth arloeswyr cynnar helpu i adeiladu'r mudiad. Helpodd areithiau a ralïau yn erbyn cefndir amodau economaidd gwael a chysylltiadau llafur a oedd yn dwysáu ar ddechrau'r 19^{eg} ganrif i adeiladu sylfaen gref a diwylliant cydweithredol. Er nad yw hon yn wers y gellir gweithredu'n uniongyrchol arni heddiw, gall y mudiad gael budd o'i arloeswyr ei hun er mwyn helpu i arwain datblygiad (Ryder, 2005; Iddrisu 2021). Mae hyn yn cael ei gadarnhau'n empirig gan Jones (2004) a ganfu lle roedd arweinyddiaeth allweddol a charismatig yn bresennol, bod twf yn digwydd mewn undeb credyd (Jones, 2004, t.14). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y canfyddiad hwn wedi'i wneud mewn perthynas â rheolaeth ac arweinyddiaeth, yn hytrach nag yn uniongyrchol i godi ymwybyddiaeth.

3.5. Thema 4: amgylchedd deddfwriaethol

Mae'r amgylchedd deddfwriaethol y mae undebau credyd yn gweithredu ynddo yn hanfodol ar gyfer twf gan ei fod yn pennu agweddau ar fusnes undebau credyd fel maint y bond cyffredin a therfynau ar y llog a godir, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer eithriadau treth.

O ran fframweithiau cyfreithiol, roedd Ryder (2005) o'r farn bod fframwaith cyfreithiol y DU yn rhwystr i dwf oherwydd ei gyfyngiadau ac yn ei gymharu â'r fframwaith deddfwriaethol cymharol hyblyg a chymwynasgar yn Iwerddon. Mae Sibbald ac eraill (2002) yn nodi mai un o ddangosyddion cryf llwyddiant undebau credyd yn Iwerddon oedd Deddf Undebau Credyd 1997, sy'n dilyn y fframwaith cyfreithiol ar gyfer undebau credyd a fabwysiadwyd gan Iwerddon yn 1966. Mewn cymhariaeth, efallai fod mabwysiadu'r ddeddfwriaeth undeb credyd wedi'i theilwra yn gymharol hwyr yn y DU wedi cyflwyno rhwystr i fomentwm undebau credyd nad oedd Iwerddon yn ei wynebu (Ryder, 2005). Mae McKillop (2017) yn awgrymu y gallai gwledydd mwy cychwynnol, yn debyg i Iwerddon, ennill manteision drwy roi'r gorau i fframwaith rheoleiddio unffurf. Yn hytrach, dylent ddatblygu rheoliadau wedi'u teilwra sy'n ystyried yr amrywiaeth o fodelau busnes undebau credyd, gan sicrhau bod y rheoliadau hyn yn fwy cefnogol na chyfyngol.

Yn yr Unol Daleithiau, cafodd twf cynnar undebau credyd ei ysgogi gan amodau economaidd trychinebus yn dilyn y Dirwasgiad Mawr ar ddiwedd y 1920au (Ryder, 2005). Cyn hyn, roedd gan undebau credyd asedau isel iawn a oedd yn cyfateb i 0.16% o gyfanswm y cronfeydd a ddaliwyd gan gyfryngwyr. Roedd cau banciau, colli swyddi, a diffyg ymddiriedaeth o sefydliadau ariannol traddodiadol wedi gwthio pobl tuag at ddefnyddio

undebau credyd, ac o ganlyniad, mabwysiadodd UDA Ddeddf Undebau Credyd Ffederal 1934 (Ryder, 2005). Mae Ward a McKillop (2005) yn sôn am y cysylltiad rhwng argyfwng a datblygiad undebau credyd ac maent o'r farn bod hanes undebau credyd yn y DU yn un o gyfleoedd a gollwyd, lle methodd undebau credyd fanteisio ar y mannau economaidd cyfyng hyn.

Gellir dadlau bod twf undebau credyd yn UDA wedi cael cymorth pellach wedyn gan ddiffyg cymorth deddfwriaethol. Roedd diffyg cyllid ar gyfer undebau credyd yn golygu bod effaith 'parhad y trechaf' wedi digwydd (Ryder, 2005). Mae hyn wedi helpu'r sector i ddod yn un o'r rhai mwyaf datblygedig yn y byd, gydag undebau credyd cynaliadwy, ymyrraeth gyfyngedig gan y llywodraeth, a threiddiad o 57% i'r farchnad (Ryder, 2005). Fodd bynnag, mae gan gyllid fanteision ar gyfer datblygu undebau credyd, fel y trafodir yn yr adran nesaf.

3.6. Thema 5: cyllid allanol

Trafodir lefel y pwysigrwydd a briodolir i gynaliadwyedd undebau credyd, a rôl y llywodraeth wrth alluogi twf ac osgoi dibyniaeth, yn aml yn y llenyddiaeth.

3.6.1. Cynaliadwyedd

Gan edrych ar fframwaith McKillop (McKillop a Ferguson 1997, yn Iddrisu 2021), mae sectorau undebau credyd aeddfed wedi'u nodweddu gan eu cynaliadwyedd y tu allan i gymorth y llywodraeth ac mae Edmonds (2015) yn dadlau bod anallu i gyflawni nodau cynaliadwyedd yn creu'r risg o adeiladu diwylliant o ddibyniaeth. Er enghraifft, mae McGrath (2019) yn archwilio'r sector undebau credyd yn yr Alban yn sgil argyfwng ariannol 2008 ac yn nodi bod undebau credyd yn fwy tebygol o ddioddef pan fyddant yn dibynnu ar gyllid allanol. Gwnaeth ei chyfweliadau hefyd arwain at ganfyddiadau bod grantiau, mewn rhai undebau credyd, yn cael eu defnyddio'n anystyriol neu'n cael eu cymryd yn ganiataol heb ystyried beth fyddai'n digwydd yn y blynyddoedd dilynol pe bai'r cyllid yn dod i ben. O ganlyniad, treuliyd mwy o amser gan undebau credyd yn mynd ar drywydd grantiau a gellid bod wedi treulio'r amser hwn ar ddarparu gwasanaethau. Gellir ystyried y cyllid hwn yn niweidiol hefyd gan ei fod yn tanseilio egwyddorion democrataidd undebau credyd yn cael eu harwain gan aelodau; drwy ddibynnu ar grantiau amodol, efallai fod undebau credyd wedi newid ffocws i ffwrdd o dwf a thuag at ddisgwyliadau polisi afrealistig (McGrath, 2019). Fel y mae Thomas ac eraill (2008) yn dadlau, nid yw undebau credyd llwyddiannus yn y sectorau yn lwerddon a'r Alban yn gweld eu hunain fel yr ateb i bob problem yn lleol; mae buddiannau wrth fynd i'r afael ag allgáu ariannol yn fonws yn hytrach na'r nod.

3.6.2. Cyllid wedi'i dargedu

Roedd y dull o gael cymorth y llywodraeth drwy ymyriadau wedi'u targedu'n fwy llym yn yr Alban wedi helpu i greu twf yn eu sector undebau credyd (Scott Cato ac eraill, 2009; McGrath, 2019). Darparodd Cronfa Gymorth Undebau Credyd yr Alban 53 o grantiau gwerth cyfanswm o £940,000 ar gyfer prynu eiddo, uwchraddio systemau TG, a hyfforddi aelodau o staff a gwirfoddolwyr. Gwnaeth Gweithrediaeth yr Alban hefyd ddarparu £400,000 y flwyddyn i undebau credyd o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwasanaeth Buddiannau Economaidd Cyffredinol ar gyfer Undebau Credyd. Roedd y cynllun hwn yn caniatáu i

undebau credyd wneud cais am gyllid os oeddent yn cynnig gwasanaethau gyda'r nod o gynorthwyo cynhwysiant ariannol (McKillop a Wilson, 2008). O ganlyniad, cynyddodd aelodaeth o undebau credyd o 189,317 i 250,000 erbyn 2006. Rhwng 2006 a 2009, elwodd 8 undeb credyd o'r gronfa, gan dderbyn ychydig dros £3.6 miliwn (Scott Cato ac eraill, 2009).

Mae Llywodraeth Iwerddon hefyd wedi defnyddio cyllid undebau credyd, fel y €250 miliwn a gyfrannwyd yn 2012 i gynorthwyo â phrosiectau uno undebau credyd. Er nad oedd llawer o undebau credyd wedi manteisio ar y gronfa oherwydd amodau rhagnodol, yn y pen draw cynorthwyodd y gronfa 117 o brosiectau uno rhwng undebau credyd bach a mawr ([ReBo, 2017](#)). Trafodir manteision uno ar gyfer twf undebau credyd ymhellach yn yr adroddiad hwn.

At hynny, dywedodd adroddiad gan [Bwyllgor Materion yr Alban \(2009\)](#) ar ddatblygu undebau credyd fod angen mwy o ddatblygiadau o ran cynnig cynnyrch ac mai'r allwedd i gynaliadwyedd undebau credyd yr Alban oedd recriwtio aelodau mwy cefnog. Ystyriwyd bod cyllid yn un o'r prif ddulliau ar gyfer cyflawni hyn, gyda'r argymhelliad y dylid dyrannu cyllid penodol i hyrwyddo undebau credyd i enillwyr incwm uwch na fyddent fel arfer yn ystyried eu defnyddio ([Pwyllgor Materion yr Alban, 2009](#)).

Mae Atkinson ac eraill (2023) hefyd yn argymhell cyllid wedi'i dargedu, ond tuag at unigolion sydd wedi'u hallgáu yn ariannol. Awgrymodd y papur y byddai undebau credyd yn cael budd o gymorth allanol i hyrwyddo eu gwaith yn ehangach a chynyddu eu cyrhaeddiad, benthyca i fenthycwyr risg uwch, a phrofi eu modelau asesu risg mewnol (Atkinson ac eraill, 2023, t.19). Cyfeiriodd rhanddeiliaid yn yr astudiaeth at un o gynlluniau peilot llwyddiannus Llywodraeth Cymru (2023) a welodd £600,000 o gyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i undebau credyd ar gyfer benthyca cynhwysol. Nod y gronfa oedd galluogi unigolion sy'n agored i niwed yn ariannol, yn enwedig y rhai â sgoriau credyd is, i gael mynediad at gredyd teg drwy warantu ad-daliad benthyciad i undebau credyd heb wybodaeth y benthyciwr. Arweiniodd y cynllun at lai o ddiffygdlu benthyciadau wrth gynyddu mynediad at wasanaethau undebau credyd a gostwng meini prawf benthyca cyffredinol undebau credyd (Atkinson ac eraill, 2023).

At hynny, gwerthusodd Bryer (2014) gyllid Llywodraeth Cymru a'r UE a oedd â'r nod o sefydlu gwasanaeth ariannol o ansawdd uchel hygyrch, fforddiadwy a chymharol. Dechreuodd y prosiect ym mis Ebrill 2009 a gwelodd £1.9 miliwn yn cael ei ryddhau i undebau credyd gyda'r nod o gynorthwyo cynaliadwyedd ac ehangu ymhlith undebau credyd Cymru. Roedd y gwerthusiad yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o ddata gweinyddol, ymgynghori â rhanddeiliaid, ymweliadau ag undebau credyd a chyfweliadau, a chymharu ag undebau credyd a oedd yn rheolyddion nad oeddent yn rhan o'r prosiect. Canfu'r gwerthusiad fod undebau credyd yn dal i fod yn wan ar ôl derbyn cyllid, gan ddal asedau uchel o'i gymharu â'r hyn yr oeddent yn ei fenthycu, ac roedd llawer wedi dod yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y gwerthusiad sawl argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut y mae undebau credyd yn defnyddio cyllid i sicrhau gwerth am arian, ac y gellid rhyddhau cyllid ar sail gystadleuol. Dylid annog darparwyr gwasanaethau i adrodd ar nifer yr unigolion sydd wedi'u hallgáu yn ariannol sy'n cael cymorth er mwyn cyfrifo gwerth am arian. Dylai derbynwyr cyllid gael meini prawf gweithredu gofynnol i'w fodloni pan fydd cyllid yn cael ei dderbyn, gan osod amodau fel

oriau gweithredu hwy neu ddatblygu platfformau ar-lein. Dylid dyfarnu cyllid pellach gyda'r bwriad o gyflawni cynaliadwyedd a dylai fod yn amodol ar strategaethau busnes cadarn sy'n amlinellu sut y bydd yr undeb credyd yn gweithio tuag at arferion cynaliadwy. Gallai'r cyllid hefyd gael ei leihau dros amser er mwyn osgoi dibyniaeth (Bryer, 2014). Roedd y rhain hefyd yn argymhellion a gyflwynwyd gan [Bwyllgor Materion yr Alban \(2009\)](#) ar amodau ar gyfer cyllid undebau credyd. Mae'r argymhellion hyn yn cyd-fynd yn fras ag egwyddorion rheolaeth dda undebau credyd a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad PEARLS a drafodir yn yr adran nesaf (Jones, 2004).

3.7. Thema 6: rheolaeth a phroffesiynoli

Mae llawer o'r llenyddiaeth ar undebau credyd yn canolbwyntio ar sut y maent yn cael eu rheoli; pa reolaeth sy'n gweithio'n dda a beth sy'n rhwstr i dwf. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu yn bennaf bod yr undebau credyd mwyaf llwyddiannus o ran treiddiad i'r farchnad a thwf yn fwy proffesiynol.

3.7.1. Gwella proffesiynoldeb

Mae gwledydd sydd â sectorau undebau credyd aeddfed a threiddiad uwch i'r farchnad yn tueddu i gael eu rheoli'n fwy proffesiynol (Iddrisu, 2021). Mae hyn yn golygu symud i ffordd o gael eu harwain gan wirfoddolwyr a thuag at gael eu rhedeg gan weithlu cyflogedig yn bennaf ac aelodau bwrdd (Jones, 2001). Awgrymodd Jones (1999, yn Ward a McKillop, 2005) fod undebau credyd bach cymunedol a chymdeithasol-ganolog yn aml yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sydd wedi gorweithio a oedd yn cael eu hannog gan ofn diffyg gweithredu yn hytrach na darparu gwasanaeth o safon. At hynny, mae Ward a McKillop (2005) yn awgrymu y gall undebau credyd mewn ardaloedd difreintiedig ddefnyddio gwirfoddolwyr heb y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i wneud yr undeb credyd yn ddymunol. Mae hyn yn gwneud yr undeb credyd yn llai deniadol i aelodau mwy cefnog o'r bond cyffredin, gan gyfyngu twf i rannau tlotach o'r gymuned. Yn archwiliad Jones a Money (2017) o arfer da undebau credyd yn rhyngwladol, nodwyd bod llwyddiant undebau credyd yng Nghanada, UDA, ac Awstralia yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu cynnal fel cyrff masnach effeithlon iawn, a reolir yn broffesiynol gyda sgiliau ac adnoddau arbenigol. Roedd hyn yn galluogi undebau credyd i eirioli yn well i arweinwyr barn gyhoeddus, deddfwyr, a rheoleiddwyr er mwyn helpu i wella gwasanaethau.

Canfu Jones (1999, yn Ward a McKillop, 2005) fod undebau credyd a oedd yn ystyried eu hunain yn fusnesau yn gyntaf ac yn bennaf fel arfer yn tyfu'n gyflymach ac roeddent yn fwy tebygol o ddod yn gynaliadwy. Mae Jones (2001) yn awgrymu bod mynd ar drywydd nodau economaidd yn gyntaf yn galluogi undebau credyd i gyflawni nodau cymdeithasol ehangach. Ymchwiliodd i undebau credyd yr Unol Daleithiau sydd, o'r cychwyn cyntaf, yn sefydliadau proffesiynol. Mae'r undebau credyd hyn yn recriwtio 500 i 1,000 o aelodau ac mae pob un ohonynt yn llofnodi addewidion aelodaeth cyn i'r undeb credyd hyd yn oed agor ar gyfer busnes, gan alluogi iddynt ddod yn hyfyw yn gyflym iawn (Jones, 2001). Nododd hefyd fod gan undebau credyd llwyddiannus yn yr Unol Daleithiau weledigaeth gliriach ohonynt eu hunain fel busnesau, a bod y cyfarwyddyd craidd hwn yn brin ymhlith undebau credyd Prydain.

Mae pwysigrwydd cael eich ysgogi ar sail busnes hefyd yn cael ei hyrwyddo gan Gynghrair Undebau Credyd Iwerddon, sy'n nodi y dylai undebau credyd fod yn bennaf ar gyfer gwasanaeth uwchlaw elw neu elusen, gyda buddiannau cymdeithasol yn naturiol yn dilyn hyn (McDonnell, 1996 yn Ward a McKillop, 2005). Mae Evans (2015) hefyd yn cefnogi'r syniad hwn, gan awgrymu, er mwyn i undebau credyd dyfu a dod yn gynaliadwy yn ariannol, bod angen cyfeiriad arnynt gan arweinyddiaeth ac uwch reolwyr cryf, a bwrdd mwy proffesiynol ac arbenigol.

3.7.2. Dadansoddiad PEARLS

Mae PEARLS yn system fonitro ariannol ar gyfer gwerthuso perfformiad a rheolaeth undebau credyd. Mae'n asesu undebau credyd mewn perthynas â safonau sy'n ymwneud â darpariaethau colled benthyciadau, cydbwysedd strwythurau ariannol, drwgweithredu benthyciadau, proffidioldeb, hylifedd, a chyfraddau twf. Mae'r metrigau hyn yn sicrhau bod undebau credyd yn cael eu diogelu, eu bod yn effeithlon, ac yn tyfu'n gynaliadwy (Jones, 2004). Canfu Jones (2005) fod undebau credyd yn fwy tebygol o dyfu pan fyddant yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth fesuradwy, y gellir eu cynhyrchu drwy PEARLS. Cymhwysodd Scott Cato ac eraill (2009) ddadansoddiad PEARLS i undebau credyd yng Nghymru i nodi sawl maes lle gellid gwella rheolaeth ariannol. Ochr yn ochr â mewnbwn gan grwpiau ffocws rhanddeiliaid, un o brif nodweddion undebau credyd llwyddiannus ar gyfer twf oedd eu bod yn canolbwyntio ar nodau gydag amcanion busnes clir a mynegodd rheolwyr agweddau entrepreneuriaidd at reolaeth undebau credyd.

Mae'n bwysig nodi bod y dadansoddiad hwn wedi'i gynnal cyn argyfwng ariannol byd-eang 2008. Ar y pryd, nododd ymchwilyr fylchau sylweddol yn y data a gasglwyd ar berfformiad undebau credyd, a oedd yn sail i'r dadansoddiad PEARLS (Scott Cato ac eraill, 2009). Yn hynny o beth, efallai na fydd y 'gwiriad iechyd' a gyflwynir yma yn darparu ciplun cwbl gadarn na chyfredol o statws undebau credyd Cymru heddiw. Serch hynny, mae'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach sy'n tynnu sylw at y cysylltiad rhwng twf a rheolaeth broffesiynol (Jones, 2001; Jones, 2004).

3.7.3. Terfynau proffesiynoli

Mae'r graddau y dylai undebau credyd fynd ar drywydd proffesiynoldeb, a model bancio mwy traddodiadol yn fwy dadleuol yn y llynyddiaeth. Er enghraifft, er bod McGrath (2019) yn cefnogi ehangu, mae'n dadlau na ddylai undebau credyd roi'r gorau i'w rôl gyhoeddus unigryw fel gwasanaeth ariannol amgen. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod gwasanaethau ariannol y DU yn gadael y stryd fawr ac yn symud i fannau digidol. Efallai y bydd gan undebau credyd fantais unigryw yma drwy lenwi'r bwlch a adawyd gan fanciau a phwyso i mewn i'w rôl sy'n canolbwyntio ar y gymuned. At hynny, mae Anderson ac eraill (2015, yn McGrath, 2019) yn awgrymu bod amddifadedd yn gysylltiedig ag allgáu digidol, ac felly bydd presenoldeb ffisegol undebau credyd yn dod yn fwyfwy pwysig mewn ardaloedd difreintiedig wrth i fanciau barhau i ddigideiddio (McGrath, 2019). Ategir hyn gan Malone (2023), sy'n cytuno er bod digideiddio yn cynnig rhagor o gyfleoedd, ni ddylai undebau credyd fod yn ddigidol yn unig, ac mae eu model 'amlsianel' yn sicrhau eu bod yn parhau ar safle uchel o ran enw da corfforaethol yn Iwerddon.

Mae McGrath (2005) hefyd yn awgrymu y gall twf undebau credyd ddibynnu ar gyfranogiad aelodau, ac mewn achosion lle nad yw undebau credyd wedi cynnwys eu haelodau mae llawer wedi methu. Mae'n defnyddio astudiaeth achos o fwrdd undeb credyd lleol yn dibynnu ar ei reolwr am benderfyniadau ynghylch system gyfrifiadurol newydd. Pan fethodd y system, gwnaeth y bwrdd feio'r rheolwr, gan arwain at ei diswyddo ac ymddiswyddiad bron hanner aelodau'r bwrdd. Yna cafodd yr aelodau a oedd yn weddill drafferth gyda gwrthdaro mewnol a materion systemau wrth geisio cynnal gweithrediadau bob dydd. Mae McGrath (2005) yn awgrymu bod hyn yn tynnu sylw at risgiau blaenoriaethu rheolaeth broffesiynol dros arweinyddiaeth aelodau.

3.8. Thema 7: ehangu gwasanaethau a chydweithio

Mae nodweddion allweddol undebau credyd aeddfed yn cynnwys darparu amrywiaeth o wasanaethau a phwysleisio cydweithio rhwng sefydliadau eraill (Iddrisu, 2021). Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr undebau credyd mewn gwledydd aeddfed oherwydd uno, gyda mwy o aelodaeth gyfunol a mwy o gynigion cynnyrch sy'n fwy cyson â'r rhai a gynigir gan fanciau.

3.8.1. Gwella portffolios undebau credyd

Cynigiodd Jones a Money (2017) awgrymiadau ar gyfer cryfhau sector undebau credyd Iwerddon a oedd, yn eu barn nhw, yn dirywio. Roedd yr awgrymiadau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o wledydd eraill sydd â sectorau undebau credyd mwy aeddfed fel UDA, Canada, ac Awstralia. Yn UDA ac Awstralia, mae undebau credyd wedi cyflwyno amrywiaeth ehangach o gynhyrchion benthyca yn hytrach na dibynnu ar fenthyciadau tymor-byr, sef prif gynnig undebau credyd y DU. Er enghraifft, yn Awstralia a Chanada, mae 93% a 58% o fenthyciadau undebau credyd ar gyfer morgeisi yn y drefn honno. Mae undebau credyd aeddfed hefyd yn cynnig cardiau credyd, benthyciadau ceir, a chyfrifon cyfredol. Mae Jones a Money (2017) yn nodi ei bod wedi cymryd llawer o amser i undebau credyd adeiladu'r portffolio hwn ac mae hyn yn bennaf oherwydd cydweithio masnachol sy'n eu galluogi i sefydlu sefydliadau cymorth cefn swyddfa a masnachol. Mae sefydliadau cyllid canolog wedi galluogi sefydlu 'undebau credyd ar gyfer undebau credyd' gan ddarparu gwasanaethau ariannol ar gyfraddau gwell na banciau, ac mae cwmnïau yswiriant cydfuddiannol sy'n eiddo i undebau credyd yn helpu i ddiogelu yn erbyn colledion ac yn galluogi undebau credyd i ddarparu benthyciadau â mwy o risg (Jones a Money, 2017). Mae gwerthusiad Evans (2015) o undebau credyd Rhydychen yn ategu hyn. Mae'n awgrymu mai un o'r prif ffyrdd o amrywio aelodaeth – yn enwedig i bobl incwm canolig – yw ehangu gwasanaethau a dulliau cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau undebau credyd ar gael ar adegau sy'n gyfleus i aelodau.

3.8.2. Cydweithio

Mae gwerthusiad Evans (2015) o wasanaethau undebau credyd yn Rhydychen yn awgrymu bod angen mwy o gydweithio i sicrhau arbedion maint. Gan ddefnyddio tystiolaeth ryngwladol, mae'n dadlau bod datblygu undebau credyd ar wahân yn anghynhyrchiol ac yn rhwystr i dwf, a bod cynaliadwyedd a thwf wedi'u cyflawni yn rhyngwladol drwy gyflwyno cydweithredol cefn swyddfa. Gall dulliau tebyg yn y DU ddarparu cyfle i adeiladu maint, creu

sefyllfa fwy cyfartal rhwng undebau credyd drwy rannu gwybodaeth, a chynnal ethos cymdeithasol undebau credyd traddodiadol. Fel y trafodwyd yn flaenorol, gall cydweithrediadau hefyd helpu i ymestyn cyrhaeddiad a gwelededd undebau llafur, drwy bartneriaethau cymunedol. Mae hyn yn cael ei gefnogi'n fras gan Edmonds (2015) sy'n nodi mewn gwledydd lle mae partneriaethau – yn benodol rhwng banciau ac undebau credyd – wedi digwydd, fel Seland Newydd a Gwlad Pwyl, mae undebau credyd wedi tyfu'n sylweddol. Yn y DU, mae rhai rheolwyr undebau credyd wedi nodi eu bod yn agored i fwy o gydweithio, ar yr amod ei fod yn lleihau costau ac yn gwella'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae Jones (2012) yn dadlau y byddai angen gweithredu ar y cyd gan undebau llafur er mwyn i hyn ddigwydd.

Mae Llywodraeth Iwerddon wedi hyrwyddo uno undebau credyd fel prif bolisi i fynd i'r afael â dirywiad mewn aelodaeth undebau credyd ar ôl argyfwng ariannol byd-eang 2008. Dyrannwyd cyllid i gefnogi'r uno hyn yn seiliedig ar straeon llwyddiant mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, yng Nghanada, mae uno wedi lleihau nifer yr undebau credyd ond wedi helpu i gydgrynhoi gwasanaethau a rennir fel systemau TG ac yswiriant a rennir ([Adroddiad y Comisiwn Undebau Credyd, 2018](#)). Arweiniodd uno yn Iwerddon at gydgrynhoi yn y sector undebau credyd, gan eu cryfhau ac adeiladu ymddiriedaeth ymhlith aelodau (Iddrisu, 2021).

Mae Evans (2015) yn awgrymu y byddai cydweithio ochr yn ochr ag amrywio'r cynnyrch yn helpu i ehangu aelodaeth i gynnwys unigolion incwm canolig, ac mae'n dadlau y bydd hyn yn gwella cynaliadwyedd ac asedau undebau credyd. Drwy wneud mwy o ddefnydd o sianeli digidol ac anelu at gynnig cynhyrchion tebyg i fanciau, y gellir eu cyflawni drwy fwy o gydweithio, gall undebau credyd helpu i adeiladu hygyrdd gyda'r cyhoedd a denu enillwyr uwch. Yn y lle cyntaf, gallai undebau credyd ystyried datblygu trefniadau didynnu o'r gyflogres gydag awdurdodau lleol a chynyddu cynhyrchiant ar y llyfr benthyciadau drwy geisio cynyddu'r cymarebau benthyciadau i gyfranddaliadau (Evans, 2015).

Ffordd arall y mae cydweithio wedi cefnogi datblygiad yw drwy gynlluniau cyfeillio. Mae'r mentrau hyn yn paru undebau credyd sy'n datblygu â chymheiriaid mewn gwledydd defnydd uwch, fel UDA neu Ganada. Mae hyn yn galluogi'r undeb credyd sy'n datblygu i ailadrodd arferion sefydliadol llwyddiannus a derbyn cymorth ariannol. Cafodd y dull hwn ei fabwysiadu gan rai undebau credyd yn y Balcanau ac fe'i hystyriwyd yn ffactor allweddol yn eu gwelliant. Cafodd ei archwilio hefyd gan Lywodraeth yr Alban fel strategaeth bosibl ar gyfer gwella twf undebau credyd (McKillop a Wilson, 2008).

4. Casgliad

Gan ddychwelyd at y cwestiynau ymchwil, mae sawl ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar lwyddiant undebau credyd yn rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys amodau economaidd-gymdeithasol a hanesyddol cychwynnol, y gwerthoedd sy'n sail i weithrediadau undebau credyd, graddau'r proffesiynoli, arferion busnes cynaliadwy, a pherthnasoedd â chymorth allanol. Mae gallu undebau credyd i gydweithio a ffurfio partneriaethau gydag undebau credyd eraill, banciau, a sefydliadau eraill yn arbennig o bwysig.

Mae amrywiol ffactorau sy'n ysgogi defnydd uchel mewn gwledydd eraill. Gwledydd â threiddiad uchel i'r farchnad yw'r rhai lle ystyrir bod undebau credyd yn ddewisiadau amgen gwirioneddol i fanciau. Mae'r enw da hwn yn cael ei ysgogi gan ehangder y gwasanaethau a'r cyfleustra a gynigir gan undebau credyd, ac mae llawer o hyn yn gynnwys cydweithio gan undebau credyd a'u cyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio ar fusnes.

Mae yna hefyd ffactorau a llai beri rhwystrau i lwyddiant a thwf. Mae undebau credyd yn tueddu i gael eu cyfyngu gan gadw at fframweithiau gweithredol cymdeithasol traddodiadol, dibyniaeth ar rai mathau o gymorth allanol, a deddfwriaeth gyfyngol. Efallai y byddant hefyd yn cael eu dal yn ôl drwy beidio â darparu ar gyfer cynulleidfaoedd newydd y gellid ei gyflawni drwy well marchnata a gwasanaethau wedi'u moderneiddio.

Mae'n werth ystyried bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar lenyddiaeth sy'n aml yn gymharol ddyddiedig, ac mae'r sector undebau credyd yng Nghymru wedi datblygu ers cyhoeddi sawl ffynhonnell. At hynny, mae llawer o'r canfyddiadau yn seiliedig ar fewnwelediadau ansoddol neu arsylwi'r hyn sy'n gweithio mewn gwledydd eraill yn hytrach na gwerthusiad empirig cadarn.

Mae'r canfyddiadau ar rwystrau a galluogwyr llwyddiant undebau credyd wedi'u rhannu'n saith thema sy'n cael eu crynhoi isod:

4.1. Gwerthoedd undebau credyd

Gall mabwysiadu cymysgedd o werthoedd model newydd a model cymdeithasol alluogi twf undebau credyd. Mae undebau credyd sy'n canolbwyntio mwy ar fusnes yn fwy tebygol o weld twf gwell nag undebau credyd sydd â nodau cymdeithasol cryfach. Fodd bynnag, dylai undebau credyd sicrhau nad ydynt yn rhoi'r gorau i nodau cymdeithasol yn llwyr gan fod hyn yn gryfder unigryw.

4.2. Bondiau cyffredin

Gall bondiau cyffredin llacach ehangu aelodaeth ac ysgogi twf, a gall bondiau tynnach wella ymddiriedaeth ac effeithlonrwydd gweithredol.

Gall llacio bondiau cyffredin yn strategol alluogi twf undebau credyd. Drwy wasanaethu cymunedau mwy amrywiol ac ehangu aelodaeth, gall undebau credyd ddefnyddio bondiau cymdeithasol i feithrin ymddiriedaeth a gwella cynhwysiant ariannol.

4.3. Gwelededd undebau credyd

Mae gwella gwelededd undebau credyd yn hanfodol ar gyfer twf. Mae mynd i'r afael â chanfyddiadau o undebau credyd fel 'cyfrinach orau Prydain' neu 'fanc y dyn tlawd' yn ei gwneud yn ofynnol cael marchnata wedi'i dargedu ac allgymorth cymunedol i wella ymwybyddiaeth ac apêl.

Gall datblygu partneriaethau a strategaethau marchnata modern roi hwb i welededd undebau credyd. Gall cydweithio ag ysgolion, cymdeithasau tai, a dylanwadwyr digidol, yn

ogystal â buddsoddi mewn technegol, helpu undebau credyd i wella eu treiddiad i'r farchnad.

4.4. Amgylchedd deddfwriaethol

Gall fframweithiau deddfwriaethol wedi'u teilwra effeithio'n sylweddol ar dwf undebau credyd. Mae gwledydd sydd â rheoliadau hyblyg a chefnogol, fel Iwerddon, wedi gweld mwy o lwyddiant undebau credyd o gymharu â'r rhai sydd â fframweithiau cymharol gyfyngol.

Yn hanesyddol, mae sectorau undebau credyd hunangynhaliol wedi cael eu cynhyrchu o amodau economaidd gwael a diffyg ymddiriedaeth gyda banciau. Gall undebau credyd gael budd o ddefnyddio eu safle cymdeithasol unigryw fel dewis amgen i fanciau er mwyn denu aelodau.

4.5. Cyllid allanol

Mae cynaliadwyedd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant undebau credyd. Gall dibyniaeth ar gyllid allanol danseilio egwyddorion hunangymorth a hyfywedd undebau credyd. Mae gwledydd sydd â sectorau undebau credyd hunangynhaliol yn gweld treiddiad uwch i'r farchnad.

Gall cyllid wedi'i dargedu, amodol gynorthwyo twf a chynhwysiant. Gellir gwneud hyn drwy grantiau penodol ar gyfer uwchraddio TG a pharhau i gynorthwyo benthyca cynhwysol neu bennu amodau strategol ar gyfer grantiau.

4.6. Rheolaeth a phroffesiynoldeb

Mae undebau credyd a reolir yn broffesiynol yn cyflawni mwy o dwf a chynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff a bwrdd mwy proffesiynol sy'n blaenoriaethu cyfeiriad busnes strategol. Fodd bynnag, dylid cydbwyso proffesiynoldeb â buddiannau undebau credyd fel sefydliadau cymdeithasol.

4.7. Ehangu gwasanaethau a chydweithio

Mae ehangu gwasanaethau undebau credyd a gwella cydweithio yn hanfodol i apelio at gymunedau ehangach.

Gall cefnogi uno a phartneriaethau rhwng undebau credyd adeiladu arbedion maint i wella darpariaeth gwasanaethau a chynnal ethos cymdeithasol.

5. Cyfeiriadau

Atkinson A, Overton L ac Ögtem-Young Ö (2023), 'Achieving full financial inclusion in the UK: current realities and potential solutions', Prifysgol Birmingham

Banc Lloegr (2025), 'Credit union quarterly statistics – 2024 Q3'

Brown R, Brown R ac O'Connor I (1999), 'Efficiency, bond of association and exit patterns in credit unions: Australian evidence', Annals of Public and Cooperative Economics, Cyfrol 70, Rhifyn 1, tudalennau 5 i 23

Bryer N (2014), 'An evaluation of the Access to Financial Services through Credit Unions Project: final report'

Adroddiad Comisiwn Undebau Credyd (2018), 'Report of the Commission on Credit Unions', Department of Finance, Dublin

Undebau Credyd Cymru (2020), 'Strategaeth Undebau Credyd Cymru 2020: adeiladu cenedl undeb credyd', Llywodraeth Cymru

Edmonds T (2015), 'Credit unions', Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif 01034, 5 Ionawr 2015

Evans G (2015), 'Evaluation of Credit Union Services in Oxford: final report', y Ganolfan Cynhwysiant Ariannol

Ferguson C a McKillop DG (1997), 'The strategic development of credit unions', Wiley, Chichester

Trysorlys EF (2024), 'Credit union common bond reform: call for evidence', Trysorlys EF, Llundain

Iddrisu M (2021), 'A study of innovation in credit unions', traethawd ymchwil doethurol, Prifysgol Ulster

Jones PA a Money N (2017), 'The Irish Credit Union Business Model: is it still fit for purpose?', Centre for Community Finance Europe Ltd

Jones PA (1999), 'Towards sustainable credit union development', ABCUL, Manceinion

Jones PA (2001), 'From small acorns to strong oaks: a study into the development of credit unions in rural England', Adroddiad Ymchwil, Countryside Agency

Jones P (2004), 'Growing credit unions in the West Midlands – the case for restructuring', Journal of Co-operative Studies, Cyfrol 37, Rhifyn 1

Jones PA (2005), 'Philanthropy and enterprise in the British credit union movement', Economic Affairs, Cyfrol 25, Rhifyn 2, tudalennau 13 i 19

- Jones PA (2012), 'Strategies for growth: a research study into the progress and development of credit unions in the North East of England and Cumbria', Prifysgol John Moores Lerpwl
- Malone D (2023), 'Credit unions: transforming Ireland's financial landscape', Accountancy Ireland
- McCarthy O (2005), 'The Irish credit union movement: member participation and organisational effectiveness', traethawd ymchwil PhD, Coleg Prifysgol Cork
- McDonnell F (1996), 'Credit unions to reveal secrets in television debut', Irish News, 15 Tachwedd
- McGrath C (2019), 'Alternative financial spaces: a case study of credit unions in Scotland', traethawd ymchwil PhD, Prifysgol Glasgow
- McKillop DG a Wilson J (2003), 'Credit unions in Britain: a time for change', Public Money and Management, Cyfrol 23, tudalennau 119 i 123
- McKillop DG a Wilson JOS (2008), 'Credit unions in Scotland', Llywodraeth yr Alban, Caeredin
- McKinsey a Company (2024), 'Six imperatives for credit unions to secure their future'
- Moore J (2022), 'British credit unions: a different future', Canolfan Ymchwil Swoboda
- Myers J, Scott Cato M a Jones PA (2012), 'An "alternative mainstream"? The impact of financial inclusion policy on credit unions in Wales', Public Money and Management, Cyfrol 32, Rhifyn 6, tudalennau 409 i 416
- Power C a O'Connor R (2012), 'Credit unions and community in Ireland: towards optimising the principle of social responsibility', International Journal of Co-operative Management, Cyfrol 6, Rhifyn 1
- ReBo (2017), 'Restructuring of the credit union sector in Ireland 2013 to 2017', Bwrdd Ailstrwythuro Undebau Credyd
- Reifner U (1997), yn Rossiter J, 'Financial exclusion: can mutuality fill the gap?', New Policy Institute and the UK Social Investment Forum, Llundain
- Richardson DC (2000), 'Unorthodox microfinance: the seven doctrines of success', Microfinance Bulletin
- Ryder N (2005), 'The shaping of credit union development: the identification of a typology of factors that have contributed towards credit union growth in the United States of America, Republic of Ireland and Great Britain', Journal of Co-operative Studies, Cyfrol 38, Rhifyn 1, tudalennau 5 i 19
- Scott Cato M, Bickle R, Bird A, Myers J a Jones P (2009), 'Realising the potential: a review of the credit union movement in Wales'

Pwyllgor Materion yr Alban (2009), 'Credit unions in Scotland: second report of the session 2008 to 09', Tŷ'r Cyffredin

Thomas R, Cryer R a Reed N (2008), 'Straight from the horse's mouth: an empirical exploration of success in the Irish credit union movement', Journal of Social Welfare and Family Law, Cyfrol 30, tudalennau 107 i 116

Tischer D, Packman C a Montgomerie J (2015), 'Gaining interest: a new deal for sustained credit union expansion in the UK', Prifysgol Llundain, Goldsmiths

Ward AM a Forker J (2017), 'Financial management effectiveness and board gender diversity in member-governed, community financial institutions', Journal of Business Ethics, Cyfrol 141, Rhifyn 2, tudalennau 351 i 366

Ward AM a McKillop DG (2005), 'An investigation into the link between UK credit union characteristics, location and their success', Annals of Public and Cooperative Economics, Cyfrol 76, Rhifyn 3

Llywodraeth Cymru (2023), 'Cyllid ychwanegol o £600,000 i undebau credyd i gefnogi cynlluniau benthyca moesegol a fforddiadwy yn ystod yr argyfwng costau byw'

Cyngor Undebau Credyd y Byd (2015), 'Model law for credit unions', WOCCU, Madison WI